

Gwerthfawrogi a derbyn pawb

- Cysyniadau:** Cyfeillgarwch, parch, cryfder.
- Amcan:** Dysgu parchu pobl eraill pwy bynnag ydyn nhw.
- Cyfarpar:** Dangos lluniau pobl o wahanol draddodiadau yn eu gwisgoedd.

Cyflwyniad:

- Er bod y bobl yn y lluniau yn ymddangos yn wahanol, eto maen nhw'n debyg iawn i ni. Cyfeirio at eu cyrff – pen, breichiau, dwylo, coesau, traed.
- Beth sy'n eu gwneud ym wahanol? Lliw eu croen, yr iaith maen nhw'n siarad a'u gwisgoedd. Efallai eu bod nhw'n bwyta pethau sy'n wahanol i ni. Ond pobl ydyn nhw fel ni. Maen nhw'n gallu chwerthin a chrio, gallu rhedeg a dawnsio, mwynhau chwaraeon.

Stori:

Un tro, amser maith yn ôl, roedd tywysoges hardd yn byw ar gwr y goedwig. Byddai wrth ei bodd yn mynd am dro at y goeden dderwen. Wrth ymyl y goeden dderwen roedd ffynnon o ddŵr grisial. Ar ddiwrnod braf byddai'r dywysoges yn yfed y dŵr o'r ffynnon ac yn chwarae gyda'i phêl aur. Ond un diwrnod rholiodd y bêl aur o'i gafael ac yn syth i mewn i'r ffynnon a suddodd i'r gwaelod. Prin oedd hi'n gallu gweld y bêl aur yng ngwaelodion y ffynnon. Dechreuodd wylo. Yna'n sydyn o ddyfroedd y ffynnon clywodd lais yn galw, 'Beth sy'n bod dywysoges hardd? Pam wyt ti'n wylo?'

Edrychodd o'i chwmpas ac yn sydyn gwelodd ben hyll yn ymddangos o'r dŵr. Beth ar wyneb y ddaear oedd hwn?

Dechreuodd siarad efo hi. 'Llyffant ydw i ac mi ydw i'n byw yng

ngwaelodion y ffynnon. Fedra i dy helpu di?’

‘Mae fy mhêl aur wedi syrthio i waelod y ffynnon. Fy mhêl aur, ochneidiodd y dywysoges.

‘Paid â wylu,’ meddai’r llyffant. ‘Mi alla i dy helpu, ond beth roi di i mi am blymio i waelod y ffynnon i nol dy bêl?’

‘Mi gei di rywbeth wyt ti eisiau!’ meddai’r dywysoges. ‘Unrhyw beth yn y byd. Fy nillad gorau, fy mherlau neu’r goron rwyf yn ei gwisgo.’

‘Dydw i ddim eisiau dy ddillad na dy berlau na dy goron,’ atebodd y llyffant, ‘ond mi hoffwn i fod yn ffrind da i ti. Mi hoffwn i eistedd wrth y bwrdd bwyd efo ti a byw efo ti yn y palas. Os gwnei di addo hyn i mi, yna mi blymia i i waelod y ffynnon i nol dy bêl.’

‘Iawn,’ meddai’r dywysoges. ‘Mi gei di bopeth.’

Ond roedd hi’n dal i gredu bod y llyffant yn erchyll ac yn hyll a doedd hi ddim am gael ffrind oedd yn edrych mor anghynnes.

Nofiodd y llyffant i waelodion y ffynnon a daeth â’r bêl aur i fyny rhwng ei goesau blaen. Cythrodd y dywysoges yn y bêl aur a rhedodd nerth ei thraed yn ôl i’r palas gan adael y llyffant yn gweiddi ar ei hôl, ‘Aros amdana i, fedra i ddim rhedeg mor gyflym ag wyt ti.’

Cyrhaeddodd y dywysoges y palas a chaeodd y drws yn dynn ar ei hôl ac anghofiodd y cwbl am y creadur hyll ac anghynnes.

Ymhen tipyn clywodd rywun yn curo ar ddrws y palas. Agorodd y dywysoges y drws a phwy oedd yno ond y llyffant. Rhedodd y dywysoges at ei thad, y brenin. Dywedodd y stori wrth ei thad ac meddai yntau wrthi, ‘Gan dy fod di wedi gwneud addewid yna mae’n rhaid i ti gadw at dy air.’

Aeth y dywysoges yn ôl at y drws a daeth y llyffant i mewn ac eisteddodd wrth y bwrdd wrth ochr y dywysoges.

Ac meddai’r brenin wrthi, ‘Paid ti byth â thorri d’addewid a phaid ti â barnu neb wrth ei olwg. Mi fuo’r llyffant yn barod i wneud tro da efo ti, yn plymio i waelod y ffynnon i nôl dy bêl aur. Efallai nad ydi’r llyffant yn edrych yn hardd o’r tu allan ond mae o wedi bod yn garedig iawn efo ti. Cofia di hynny!’ meddai’r brenin.

Trafodaeth bellach:

- Os y buasech chi'n dywysoges fydddech chi wedi gofyn i'r llyffant eich helpu?
- Tybed oedd y llyffant braidd yn hunanol eisiau gwobr am wneud tro da?
- Fydddech chi'n cytuno â'r hyn ddywedodd y brenin?

Dyfyniad o'r Beibl:

“Peidiwch bod yn feirniadol o bobl eraill.”

“Ond dw i'n dweud wrthoch chi: Carwch eich gelynyon ...”

Mathew 7:1; 5:44 beibl.net

Munud i feddwl:

Mae'n rhaid i ni wneud ein gorau i ddeall bod pobl y byd i gyd yn perthyn i un teulu mawr.

Emyn: Dangos cariad Duw: Mwy o Glap a Chân 62

Myfyrdod/Gweddi:

O Dduw, os gweli'n dda wnei di ein dysgu i garu a derbyn pawb? Amen.